**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/0166

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

13 Mai 2025

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu i hysbysu'r Pwyllgor o'm bwriad i roi cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud a gosod Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff 2025 (Diwygio etc.) 2025 ('Rheoliadau 2025').

Mae Rheoliadau 2025 yn gorgyffwrdd â pholisïau datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Bydd Rheoliadau 2024 yn cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth arfer y pwerau a roddir gan adran 50(1)(a) o, ac Atodlenni 4 a 5 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021.

Mae Rheoliadau 2025 yn gymwys mewn perthynas â Chymru, Gogledd Iwerddon, Lloegr a'r Alban ac yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol. Disgwylir iddynt gael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 2 Mehefin 2025.

<u>Rheoliadau 2025</u>

Yn 2024, cytunodd Gweinidogion ledled y DU gyda'i gilydd i weithio ar gynigion i ddiwygio Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff cyfredol 2013 (O.S. 2013/3113) ("Rheoliadau 2013") sy'n berthnasol i'r DU, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Rheoliadau 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr offer trydanol ac electronig sy'n rhoi offer electronig ar y farchnad gyrraedd targedau adfer ac ailgylchu. Rhaid i gynhyrchwyr offer electronig helpu i ariannu casglu, trin, adfer, ailddefnyddio, ailgylchu, a gwaredu offer electronig gwastraff mewn dull sy'n dda i'r amgylchedd. Mae'r rheoliadau diwygio wedi'u cynllunio i drwsio dau ddiffyg a gydnabyddir yn eang o'r gyfundrefn bresennol drwy:

Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales
Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Osod rhwymedigaethau newydd ar farchnadoedd ar-lein fel eu bod yn cyfrannu at gost casglu, trin, ailddefnyddio ac ailgylchu offer electronig gwastraff yn unol â'r rhwymedigaethau hynny sy'n berthnasol ar hyn o bryd i gwmnïau a ddiffinnir fel cynhyrchwyr o fewn y rheoliadau presennol. Bydd y gofynion newydd yn berthnasol i farchnadoedd ar-lein yn unig mewn perthynas ag offer a osodir ar farchnad y DU gan eu gwerthwyr tramor yn unig.

- Creu categori newydd o offer ar gyfer fêps i sicrhau bod costau casglu a thrin yr eitemau hyn yn cael eu talu gan y rhai sy'n eu rhoi ar y farchnad yn unig.

<u>Safbwynt Llywodraeth Cymru</u>

Egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru. Mae Rheoliadau 2025 yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU ar ran Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, gan fod parhau â chyfundrefn unedig ledled y DU yn fanteisiol ar gyfer gorfodi, cydymffurfio a bydd yn lleihau'r risg o ddryswch posibl yn y sector.

Yn fy marn i, nid deddfu ar wahân i Gymru fyddai'r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i'r newidiadau sydd eu hangen, ac ni fyddai'n ddefnydd doeth o adnoddau Llywodraeth Cymru o ystyried blaenoriaethau pwysig eraill.

Rhagwelir y bydd y Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd y DU yn unol â'r weithdrefn gadarnhaol ar 2 Mehefin 2025. Y bwriad yw y bydd y Rheoliadau 2025 yn dod i rym ar 11 Awst.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs